Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Chwilog
# Chwilog
# Pwllheli
# Gwynedd
# LL53 6PS

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work
Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2013**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ynghanol pentref Chwilog, ger Pwllheli. Mae'n gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o gwmpas.

Mae 62 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yn cynnwys plant oed meithrin. Mae'r niferoedd wedi cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf. Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Mae 89% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref. Nid oes unrhyw ddisgybl o gefndir ethnig lleiafrifol yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae 3% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n is na'r canrannau sirol a chenedlaethol. Mae 10% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol sy'n sylweddol is na'r ffigwr cenedlaethol (21%). Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae'r pennaeth newydd yn ei swydd ers Ionawr 2013 yn dilyn cyfnod cymharol hir o ansefydlogrwydd yn arweinyddiaeth yr ysgol.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Chwilog yn 2012-2013 yw £3,476. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £9,577 a'r lleiafswm yw £2,834. Mae Ysgol Gynradd Chwilog yn safle 85 allan o'r 102 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Chwilog yn ddigonol oherwydd:

- ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, ac ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae cyflawniadau disgyblion ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) a lefel 4+ yn cymharu'n ffafriol iawn â chyfartaleddau ysgolion y teulu, yr awdurdod a Chymru;
- bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r medrau llythrennedd yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion;
- yn gyffredinol, mae'r addysgu ar draws yr ysgol yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn mwynhau dysgu ac yn gwneud cynnydd addas mewn gwersi; a
- bod ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda.

Er hynny:

- mae cyflawniad y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefelau uwch ymhob pwnc craidd wedi bod yn is na'r teulu o ysgolion am gyfnod helaeth o amser;
- mae profion darllen safonedig yn dangos bod mwyafrif y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn darllen yn sylweddol is na'u hoed cronolegol yn y ddwy iaith; ac
- nid yw trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol gan fod:

- strategaethau sydd wedi eu rhoi ar waith yn ddiweddar yn dechrau cael effaith ar safonau;
- sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth yr ysgol yn dilyn penodiad y pennaeth newydd;
- dogfen hunanarfarnu'r ysgol yn adnabod ei chryfderau ac agweddau sydd angen eu gwella yn briodol.

Er hynny:

- nid oes gan yr ysgol weledigaeth glir sy'n canolbwyntio digon ar wella deilliannau dysgu a lles disgyblion;
- nid yw'r corff llywodraethol yn bodloni pob un o'i ddyletswyddau statudol; ac
- nid yw'r ysgol wedi llwyddo i ymateb i ran fwyaf o argymhellion yr arolygiad diwethaf.

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen a mathemateg ar draws yr ysgol

A2 Sicrhau bod cynlluniau gwaith yr ysgol gyfan yn sicrhau datblygiad yn y medrau ac yn ateb i ofynion yr ystod llawn o ddisgyblion.

A3 Gwella ansawdd trefniadau asesu ar draws yr ysgol

A4 Sicrhau bod holl ddogfennaeth yr ysgol yn ateb gofynion statudol ac yn ymateb yn llawn i faterion diogelu.

A5 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

A6 Cryfhau gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol er mwyn rhoi ffocws ar godi safonau

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o’r farn bod angen gwelliant sylweddol ar yr ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol 12 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar eu hathrawon ac yn barod i gynnig sylwadau wrth siarad am eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu defnydd o'r Gymraeg. Cyfranna'r mwyafrif yn frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth gan ddefnyddio geirfa addas o fewn cyd-destun penodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae tua hanner y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r goreuon yn medru darllen yn hyderus ar goedd lyfrau sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Serch hynny, nid yw hyn yn wir ar draws yr ystod o allu.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol yn y Gymraeg gan ymateb yn briodol i'r testun a ddarllenir. Araf yw datblygiad darllen ychydig o ddisgyblion yn y Saesneg. Mae diffyg hyder a dealltwriaeth o'r testun yn effeithio ar fwynhad a rhuglder y darllen. Mae medrau darllen mwyafrif y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn sylweddol is na'r disgwyl yn ôl eu hoed cronolegol yn y ddwy iaith.

Nid yw'n bosibl rhoi darlun clir o gynnydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gan nad yw'r trefniadau ar gyfer adnabod anghenion disgyblion a thracio eu cynnydd yn ddigon effeithiol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n ystyrlon ac yn annibynnol. Mae gan y mwyafrif afael cadarn ar gystrawen Gymraeg ac yn gyffredinol maent yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu gan ddefnyddio'r nodweddion hyn yn hyderus yn y ddwy iaith ar draws ystod o bynciau. Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, nid yw gwaith y mwyafrif o'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn adlewyrchu'r safonau disgwyliedig mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin data am berfformiad dros amser yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ymhob blwyddyn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau disgyblion ar y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, yn cymharu'n ffafriol iawn â chyfartaleddau ysgolion y teulu. O gymharu ag ysgolion tebyg eraill ar sail cinio am ddim mae'r ysgol yn y 25% uchaf o'r ysgolion hyn.

Yn 2012, llwyddodd pob disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4+) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, sef y dangosydd pynciau craidd. Yr un yw'r darlun yn y pynciau unigol. Mae hyn wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg ar sail cinio am ddim dros y ddwy flynedd diwethaf. Serch hynny, mae cyflawniad y disgyblion ar y lefel uwch ymhob pwnc craidd wedi bod yn is nag ysgolion tebyg dros gyfnod helaeth o amser.

Nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen nac ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2.

Mae cyflawniad y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim yn cymharu'n ffafriol â chyflawniadau gweddill y disgyblion.

**Lles: Digonol**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach ac mae ychydig yn gallu siarad am bwysigrwydd gweithgareddau corfforol. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau chwaraeon o fewn yr ysgol, ond nid oes cyfleoedd ar hyn o bryd i ddatblygu hyn y tu allan i oriau ysgol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb yr ysgol wedi bod yn dda ac yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos balchder a diddordeb yn eu gwaith, ac yn cydweithio'n effeithiol mewn parau a grwpiau. Mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau dysgu annibynnol addas, ac maent yn dechrau ystyried y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf yn dda ac maent yn dangos parch tuag at ymwelwyr staff a'u cyfoedion. Mae'r mwyafrif yn barod i wneud cyfraniad llawn i fywyd yr ysgol gan gyfrannu'n effeithiol at weithgareddau'r gymuned megis 'Criw Paned Deg'.

Nid yw'r cyngor ysgol a'r cyngor eco wedi cwrdd ers peth amser ac mae hyn wedi eu rhwystro rhag datblygu eu rôl yn effeithiol. Nid yw llais y plentyn yn cael digon o sylw ac nid ydynt yn chwarae rôl digon gweithredol ym mhenderfyniadau'r ysgol.

Mae'r disgyblion yn falch o'u hymdrechion i godi arian er budd elusennau megis Barnardos a Phlant Mewn Angen.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Nid yw'r trefniadau cynllunio ar gyfer y cwricwlwm llawn wedi datblygu'n llawn ac nid oes eto gynllun hir dymor i sicrhau datblygiad llawn yn y medrau yn enwedig mewn rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Serch hynny, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r medrau llythrennedd yn dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion. Mae diffyg cysondeb yn y cynllunio, ac nid yw'r ddarpariaeth i ymestyn disgyblion mwy abl a thalentog yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau. Mae rhain yn cynnwys ymweliadau a gweithgareddau oddi ar y safle sy'n cyfrannu'n effeithiol at y ddarpariaeth a phrofiadau'r disgyblion.

Yn gyffredinol, mae yna ddarpariaeth barhaus a chynllunio priodol yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn dda ac wedi ei wreiddio ar draws yr ysgol. Mae'n galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd da ac i ymfalchïo yn eu Cymreictod.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn briodol, ac mae'r ysgol yn hybu ailgylchu ac yn monitro'r defnydd o ddŵr ac ynni yn effeithiol. Mae disgyblion yn tyfu llysiau yng ngardd yr ysgol ac yna yn eu gwerthu yn ffair yr ysgol. Mae hyn yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion o entrepreneuriaeth. Mae prinder cyfleoedd ar draws yr ysgol i hybu a datblygu dealltwriaeth y disgyblion yn llawn am faterion dinasyddiaeth byd-eang a phrin iawn oedd y dystiolaeth a welwyd yn llyfrau'r disgyblion.

**Addysgu: Digonol**

Yn gyffredinol, mae'r addysgu yn y mwyafrif o'r gwersi yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn mwynhau dysgu ac yn gwneud cynnydd addas mewn gwersi.

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn gwneud defnydd o ystod briodol o ddulliau addysgu sy'n cymell y disgyblion i gyfrannu mewn gwersi. Ar y cyfan, mae'r cyflwyniadau yn fywiog ac fe wneir defnydd effeithiol o holi. Mae cynllunio ar gyfer gwersi yn dderbyniol, ond nid yw mwyafrif y disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau'n llawn ar draws ystod o bynciau. Nid yw'r gweithgareddau bob tro yn ddigon heriol ac yn ymateb i anghenion disgyblion mwy abl a thalentog.

Mae athrawon yn marcio gwaith y plant yn gyson, gan gyfeirio at feini prawf llwyddiant y dasg. Maent yn datblygu strategaethau priodol sy'n galluogi plant i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith. Serch hynny, nid ydynt eto yn cael digon o effaith ar safonau.

Mae'r ysgol yn datblygu trefniadau mwy ffurfiol ar gyfer asesu gwaith y disgyblion. Mae wedi cyflwyno profion safonedig darllen, sillafu a mathemateg yn ddiweddar i fesur cynnydd, ond nid yw athrawon eto yn eu defnyddio'n ddigon effeithiol i adnabod anghenion penodol disgyblion.

Mae'r ysgol wedi dechrau gweithio gydag ysgolion y dalgylch a'r ysgol uwchradd i gymedroli gwaith disgyblion ond nid yw hyn wedi datblygu'n ddigon effeithiol er mwyn sicrhau cysondeb yn eu hasesiadau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn briodol. Mae ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda. Serch hynny, mae'r cyngor a'r arweiniad i ddisgyblion ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol yn anghyson a heb ei gynllunio'n ddigon bwriadus.

Nid oes gan yr ysgol drefniadau digon cadarn i adnabod anghenion dysgwyr ac nid oes darpariaeth na rhaglenni ymyrraeth yn bodoli i ymateb i anghenion carfanau penodol o ddisgyblion. Mae hyn yn cynnwys y rhai mwy abl a thalentog. O ganlyniad, nid yw'r ysgol yn darparu lefel briodol o ofal a chefnogaeth i ddisgyblion. Mae'r ysgol yn derbyn cymorth gan wasanaethau arbenigol yr awdurdod er mwyn cefnogi ychydig o ddisgyblion ag anghenion penodol.

Er bod gan yr ysgol gynlluniau addysg unigol a thargedau priodol ar gyfer plant sydd ag anghenion arbennig, mae hyn yn ddarpariaeth ddiweddar. Caiff y targedau eu rhannu gyda'r rhieni a'u gwerthuso'n briodol, ond nid ydynt eto yn cael digon o effaith ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan amlwg yng ngweithgareddau'r gymuned Mae hyn yn gryfder ac yn meithrin ymrwymiad i'r gymuned leol a balchder ynddi.

Nid yw trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac maent yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn gymuned glos, ofalgar a chroesawgar a cheir awyrgylch cynnes ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae yna ethos cynhwysol, Cymraeg ac mae'r plant yn cael mynediad cyfartal i bob agwedd ar addysg a bywyd yr ysgol. Mae trefniadau addas ar gyfer mynediad i blant gydag anableddau.

Mae rhan fwyaf o bolisïau'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn briodol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r adeilad a'r adnoddau. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu lliwgar ac ysgogol sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae pob dosbarth yn ddeniadol a'r arddangosfeydd yn dangos gwaith cyfredol y disgyblion. Mae'r disgyblion yn dangos parch i'w hamgylchfyd dysgu ac i'r adnoddau. Serch hynny, nid yw'r ardal tu allan wedi ei datblygu i ymateb i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen

Caiff yr adeilad a'r safle eu cynnal a'u cadw'n raenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Dros y ddwy flynedd diwethaf bu'r ysgol drwy gyfnod ansefydlog o ran arweinyddiaeth. Mae'r staff wedi gweithio'n effeithiol i gynnal ethos ac ansawdd addysgu cadarnhaol i'r disgyblion dros y cyfnod hwn. Serch hynny, nid oes gweledigaeth glir gan yr ysgol, sy'n canolbwyntio digon ar wella deilliannau dysgu a lles disgyblion. Nid yw arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad clir ar gyfer athrawon a chynorthwywyr ac nid ydynt yn diffinio rolau a chyfrifoldebau'r staff yn ddigon penodol. O ganlyniad, nid yw'r ysgol wedi llwyddo i ymateb i ran fwyaf o argymhellion yr arolygiad diwethaf.

Yn ddiweddar, mae'r llywodraethwyr wedi cael hyfforddiant perthnasol ac maent yn dechrau deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn well. Serch hynny, nid yw'r corff llywodraethol yn cael digon o effaith ar gyfeiriad a gwaith strategol yr ysgol ac nid ydynt yn herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad. Nid yw'r corff llywodraethol yn bodloni pob un o'i ddyletswyddau statudol.

Nid yw'r ysgol yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn ddigon effeithiol ac nid yw'r Cyfnod Sylfaen wedi ei ddatblygu yn y llawn eto.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r trefniadau hunan arfarnu wedi cryfhau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae arweinwyr wedi cynllunio amserlen addas ar gyfer y gwaith, sy'n rhoi sylw priodol i ystod o weithgareddau, gan gynnwys dadansoddi data, monitro gwersi, craffu llyfrau a chasglu barn y staff, y llywodraethwyr, y rhieni a'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol wedi llwyddo i adnabod nifer o gryfderau'r ysgol ac agweddau y mae angen eu gwella. Serch hynny, nid yw'r adroddiad yn ddigon arfarnol, ac nid yw bob amser yn rhoi darlun cywir o bob agwedd o waith yr ysgol.

Ar y cyfan, mae cynllun datblygu'r ysgol o ansawdd addas. Mae'n nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer gwelliant gan amlinellu targedau a chamau penodol, amserlen gweithredu a meini prawf llwyddiant. Serch hynny, nid yw'r cyswllt rhwng y cynllun datblygu a'r blaenoriaethau sy'n codi o'r hunan arfarnu yn ddigon penodol. Mae'r deilliannau a'r meini prawf llwyddiant a nodir ynddo yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn ffocysu'n ddigon penodol ar ddeilliannau'r disgyblion. Nid yw chwaith yn nodi'n ddigon clir pwy sy'n gyfrifol am arwain a monitro'r targedau.

Mae staff y Cyfnod Sylfaen wedi ymweld ag ysgolion eraill yn ddiweddar i weld arfer dda ac i ddatblygu'r cynllunio. Fodd bynnag, nid yw hyn eto wedi cael effaith ar y ddarpariaeth na deilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn ddiweddar wedi ymrwymo i gymuned dysgu proffesiynol dalgylchol sy'n anelu i ddatblygu mathemateg yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y gwaith hwn ar ddeilliannau'r disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae cylchlythyron rheolaidd yn ddiweddar a gwefan yr ysgol yn hybu cyfathrebu ac yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol.

Mae'r gymdeithas rhieni athrawon yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol. Prynwyd adnoddau cyfrifiadurol yn ddiweddar, ond nid ydynt eto wedi cael effaith ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r adnoddau cymunedol gan fanteisio ar neuadd y pentref i gynnal gweithgareddau amrywiol a chyngherddau.

Mae cynlluniau trosglwyddo effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd sy'n galluogi'r disgyblion i fod yn barod ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae'r bartneriaeth hon yn hyrwyddo cysylltiadau addysgol a bugeiliol addas.

**Rheoli adnoddau:  Digonol**

Yn gyffredinol, mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n briodol.

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu a staff cynorthwyol.  Serch hynny, ni ddefnyddir staff ategol yn ddigon effeithiol i gefnogi’r addysgu a’r dysgu ar draws yr ysgol.

Mae buddsoddiad diweddar y tu fewn i’r adeilad wedi creu amgylchedd dysgu ysgogol a deniadol.

Nid yw’r ysgol yn ymateb i ofynion statudol ar gyfer rheoli perfformiad a baich gwaith athrawon yn llawn.

Mae is-bwyllgor cyllid yr ysgol yn cwrdd yn rheolaidd ac mae rôl y llywodraethwyr i fonitro’r gyllideb yn datblygu’n briodol.

Yng nghyd-destun deilliannau’r ysgol ac ansawdd y ddarpariaeth, mae’r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid bod yn ofalus wrth ymdrin â data mewn ysgolion bach oherwydd carfanau bach o ddisgyblion sy'n cael eu asesu ar ddiwedd cyfnodau.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn cymharu'n ffafriol iawn â chyfartaleddau ysgolion y teulu, yr awdurdod a Chymru ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ymhob maes dysgu o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim. Ni lwyddodd unrhyw ddisgybl yn 2012 i gyrraedd deilliant 6 mewn unrhyw faes dysgu. Mae'n gosod yr ysgol yn y 25% isaf ymhob maes dysgu o gymharu ag ysgolion o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Llwyddodd pob disgybl ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 i gyrraedd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu uwch) mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad mewn 4 o'r 5 mlynedd diwethaf. Yr un yw'r darlun yn y pynciau unigol. Mae'n gosod yr ysgol yn y 25% uchaf ymhob maes dysgu o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf.

Er hynny, nid yw cyflawniad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n ffafriol â ffigyrau'r teulu dros y 5 mlynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae wedi bod yn is na'r teulu o ysgolion, yr awdurdod a Chymru dros gyfnod o amser.

Nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniad bechgyn a merched mewn unrhyw faes dysgu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen nac yn y pynciau craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 2.

Mae cyflawniad y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim yn cymharu'n ffafriol â chyflawniadau gweddill y disgyblion.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 38 o ymatebion gan ddisgyblion. Mae’r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol o fywyd yr ysgol.

Mae pob disgybl yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac maent yn gwybod gyda phwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni. Mae pob disgybl yn nodi eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol.

Mae bron pob disgybl yn nodi bod yr athrawon a’r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, a’u bod yn gwybod beth i’w wneud a gyda phwy i siarad os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae llawer yn nodi bod yr ysgol yn delio’n dda ag unrhyw fwlio. Mae llawer o’r disgyblion yn credu bod nifer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer hefyd yn credu bod y gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall eu gwaith yn yr ysgol a bod digon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae ychydig dros hanner y disgyblion yn credu bod plant eraill yn ymddwyn ac yn eu galluogi i wneud eu gwaith sy’n is na’r canran cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 25 o ymatebion gan rieni.

Mae ymatebion y rhieni yn gadarnhaol. Mae pob rhiant yn cytuno neu’n cytuno’n gryf bod y disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol ac yn credu bod yr addysgu’n dda. Mae bron pob un yn credu bod eu plentyn yn hoffi’r ysgol, yn gwneud cynnydd da ac yn teimlo’n ddiogel yno. Mae bron pob rhiant yn teimlo bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae rhan fwyaf y rhieni yn teimlo bod y staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Mae rhan fwyaf y rhieni’n teimlo bod eu plentyn yn cael y cymorth priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol, tra mae llawer o’r rhieni yn cytuno eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn. Mae llawer o rieni yn teimlo bod y gwaith cartref sy’n cael ei roi yn adeiladu’n dda ar yr hyn sy’n cael ei ddysgu yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf y rhieni yn teimlo’n ddiogel ynglŷn â gofyn cwestiwn i’r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.

Mae llawer o rieni yn fodlon â’r ysgol yn gyffredinol. Mae llawer yn nodi bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda sydd ychydig is na chanrannau cenedlaethol.

Mae llawer o rieni yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Morgan | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Robert Gwyn Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lyndsey Pleming | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.